



## Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

### Hysbysiad Preifatrwydd

Dyddiad: 7 Rhagfyr 2023

---

#### Cyflwyniad

Mae Hysbysiad Preifatrwydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (y Gymdeithas) yn berthnasol i:

- i) Aelodau cyfredol y Gymdeithas. Mae rheolau ychwanegol sy'n berthnasol i aelodau'r Gymdeithas ac mae'r rhain i'w cael yn y Llawlyfr Aelodaeth.
- ii) Cyn-aelodau o'r Gymdeithas, p'un a ydynt yn: rhai 3 blynedd y caniateir iddynt ail-ymaelodi cyn gorfod sefyll arholiad eto (mae rheolau ychwanegol sy'n berthnasol i'r garfan hon ac mae'r rhain i'w cael yn yr ohebiaeth a anfonwyd atynt ar ddod yn gyn-aelodau); neu'n perthyn i'r categori Aelod wedi ymddeol.
- iii) Y rheini sydd ddim yn aelodau o'r Gymdeithas, p'un a ydynt yn: swyddogion mewn awdurdodau cyhoeddus â chysylltiad uniongyrchol â chyfieithu; yn perthyn i gategori'r Myfyriwr Cyswllt; neu'n unigolion a ddaeth i gysylltiad uniongyrchol â'r Gymdeithas wrth gofrestru ar gyfer un o'r gweithgareddau a drefnwyd ganddi (diffinnir 'gweithgarwch/gweithgareddau' fel unrhyw beth a gaiff ei drefnu a'i weinyddu gan y Gymdeithas, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu, i'r Arholiadau Aelodaeth Testun, y Prawf CAP, a gweithdai datblygu proffesiynol a'u tebyg).

#### Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Y Gymdeithas yw'r gymdeithas broffesiynol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg i/o'r Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun ynteu'n gyfieithwyr ar y pryd. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant, rhif cofrestru 4741023. Mae manylion cysylltu i'w cael ar ddiwedd y dogfen hon.

#### Eich gwybodaeth bersonol

Ystyr gwybodaeth bersonol yw unrhyw wybodaeth bersonol sy'n galluogi i unigolyn byw gael ei adnabod.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth am beth i'w ddisgwyl pan fydd y Gymdeithas yn casglu, defnyddio, datgelu, trosglwyddo a chadw eich gwybodaeth bersonol. Y Gymdeithas yw'r Rheolwr Gwybodaeth bersonol ar gyfer y gwybodaeth bersonol y mae'n ei chasglu gennych.

Mae'r Gymdeithas yn ymrwymedig i ddiogelu gwybodaeth bersonol y mae'n ei derbyn. Pryd bynnag y bydd y Gymdeithas yn derbyn gwybodaeth ac yn ei brosesu (casglu, storio, defnyddio, newid, rhannu neu ddiaristrio gwybodaeth bersonol), mae dan ddyletswydd gyfreithiol i ddefnyddio'r wybodaeth honno'n unol â'r holl gyfreithiau

perthnasol ar ddiogelu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU a Deddf Diogelu Data 2018 (cyfraith diogelu gwybodaeth bersonol).

Mae'r wybodaeth bersonol y mae'r Gymdeithas yn ei phrosesu yn cael ei rhoi'n uniongyrchol gennych chi oherwydd eich bod yn perthyn i un o'r 3 categori a nodir yn y Cyflwyniad uchod. Ystyrir fod gennych ddiddordeb dilys a phroffesiynol yn y wybodaeth a rennir gan y Gymdeithas.

### **Prosesu eich gwybodaeth bersonol**

Mae'r Gymdeithas yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan gyfraith diogelu gwybodaeth bersonol trwy sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn gyffredol; trwy ei storio a'i dinistrio mewn modd diogel; trwy beidio â chasglu neu gadw gormodedd o wybodaeth bersonol; trwy ddiogelu gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli, ei chamddefnyddio, ei chyrru heb ganiatâd a'i datgelu, a thrwy sicrhau bod mesurau technegol priodol ar waith i ddiogelu gwybodaeth bersonol.

Defnyddir eich gwybodaeth bersonol i'r dibenion canlynol:

- gweinyddu trefn aelodaeth y Gymdeithas
- gweinyddu'r gweithgarwch yr ydych wedi cofrestru i gymryd rhan ynddo
- monitro ac adrodd ar nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau wrth gyflawni gofynion cyllidwyr ein gwaith
- gwerthuso effaith y gweithgareddau ar yr unigolion a gymerodd ran ynddynt
- rhoi gwybod i chi am weithgareddau tebyg a drefnir gan y Gymdeithas (yn unol â'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig)
- mae'r Gymdeithas yn casglu, ac weithiau yn cyhoeddi, ystadegau sy'n dangos gwybodaeth fel nifer y sydd wedi sefyll a llwyddo mewn arholiadau yn ei adroddiad blynyddol, ond nid ar ffurf sy'n adnabod unrhyw un.

Nid yw'r Gymdeithas yn defnyddio unrhyw brosesydd data ac eithrio at ddibenion prosesu cyflogau staff.

### **Y wybodaeth bersonol a gaiff ei chasglu**

Bydd maint y wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu amdanoch chi yn dibynnu ar y rheswm pam eich bod yn ymwneud â'r Gymdeithas.

Byddwn yn casglu gwybodaeth cysylltu personol gan gynnwys eich enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn.

Caiff gwybodaeth ychwanegol ei chasglu am ein haelodau, a cheir cyfarwyddyd pellach ynghylch hyn yn y Llawlyfr Aelodaeth.

### **Y sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth bersonol**

Mae'r Gymdeithas yn prosesu eich gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd. Yn achos ei gweithgareddau mae hyn yn golygu cefnogi unigolion i ddatblygu eu sgiliau cyfieithu.

Mae prosesu hefyd yn angenrheidiol er buddiant dilys y Gymdeithas, fel y gallwn fonitro a gwerthuso ein gweithgareddau a rhoi gwybod i chi am weithgareddau tebyg.

Mae'n rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth bersonol y gofynnir amdani wrth ymaelodi a/neu gofrestru ar gyfer gweithgarwch er mwyn i ni allu gweinyddu'ch aelodaeth a/neu'r

gweithgarwch yr ydych wedi gwneud cais i fod yn rhan ohono. Heb y wybodaeth hon, ni allwn wneud hyn.

### **Rhannu eich gwybodaeth bersonol**

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Ni fydd yn cael ei rhannu â neb y tu allan i'r Gymdeithas nac ag unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Yn achos gweithdai a'u tebyg, rhennir y wybodaeth â'r tiwtoriaid perthnasol. Gofynnir iddynt hwy ddileu gwybodaeth bersonol ar ddiwedd y gweithgarwch y maent yn gysylltiedig ag ef.

Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i wledydd y tu allan i'r DU a'r AEE.

O dan rhai amgylchiadau mae'r Gymdeithas o dan rwymedigaeth cyfreithiol i rannu gwybodaeth bersonol, e.e. o dan orchymyn llys. Mewn unrhyw sefyllfa, bydd y Gymdeithas yn bodloni ei hun bod sail gyfreithiol dros rannu'r wybodaeth bersonol ac yn cofnodi'r drefn benderfynu a'r sail gyfreithiol dros rannu'r wybodaeth bersonol.

### **Cadw eich gwybodaeth bersonol**

Bydd y Gymdeithas yn pennu am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol. Ni chaiff eich gwybodaeth bersonol ei chadw am gyfnod hwy nag sydd ei angen. Am fanylion pellach ynghylch hyn gweler ein Polisi Cadw a Gwared Data.

### **Ein gwefan**

Mae gwefan y Gymdeithas yn gosod ffeiliau bychain "cwcis" neu "briwsion" ar gyfrifiaduron sy'n ymweld a'r safle. Dywed Craft – y cwmni sydd yn creu y meddalwedd rheoli cynnwys – y CMS "At ddibenion GDPR, nodwch nad yw cwcis diofyn Craft yn casglu unrhyw wybodaeth bersonol neu sensitif. Nid yw cwcis diofyn Craft yn casglu cyfeiriadau IP. Nid yw'r wybodaeth y maent yn ei storio yn cael ei hanfon at unrhyw drydydd parti. Defnyddir cwcis diofyn Crafft yn unig i gyfathrebu â'ch gosodiad Craft at ddibenion dilysu defnyddwyr, dilysu ffurflenni / diogelwch, a gweithrediadau cymhwysiad gwe sylfaenol."<sup>1</sup>

Nid yw'r Gymdeithas yn casglu na chadw manylion personol ymwelwyr â'r wefan.

### **Eich hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol**

Mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol:

- eich hawl i fynediad:

Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol y mae'r Gymdeithas yn ei chadw amdanoch.

- eich hawl i gywiriad:

Mae gennych yr hawl i ofyn i'r Gymdeithas gywiro unrhyw wybodaeth bersonol os canfyddir ei bod yn anghywir neu wedi dyddio neu'n anghyflawn.

- eich hawl i ddilead:

---

<sup>1</sup> <https://craftcms.com/cookie-notice>

Mae gennych yr hawl i ofyn i'ch gwybodaeth bersonol gael ei dileu lle nad yw'n angenrheidiol mwyach i'r Gymdeithas gadw gwybodaeth bersonol o'r fath.

- eich hawl i gyfyngu prosesu:

Mae gennych yr hawl i ofyn i'r Gymdeithas i gyfyngu'r gwaith o brosesu'ch gwybodaeth bersonol pan fo yna anghytuno ynghylch cywirdeb eich gwybodaeth bersonol neu'r gwaith prosesu a wneir arni.

- eich hawl i wrthwynebu prosesu:

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol.

- eich hawl i drosglwyddo'r wybodaeth bersonol:

Mae gennych yr hawl i ofyn i'r Gymdeithas drosglwyddo'r wybodaeth bersonol yr ydych wedi ei rhoi iddi hi yn uniongyrchol i reolydd gwybodaeth bersonol arall neu ei rhoi i chi.

Nid oes raid i chi dalu unrhyw ffi am arfer eich hawliau. Bydd gan y Gymdeithas un mis i ymateb i chi.

## **Eich hawl i gwyno**

Os oes gennych ymholiadau neu bryderon ynghylch y modd y mae'r Gymdeithas yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol, cysylltwch â hi gan ddefnyddio'r manylion cysylltu sydd i'w cael ar ddiwedd y dogfen hon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y modd y mae'r Gymdeithas wedi prosesu'ch gwybodaeth bersonol. Gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth trwy ffonio 0303 123 1113, neu trwy e-bost <https://ico.org.uk/global/contact-us/email/>, neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF.

Mae'r Gymdeithas wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## **Prosesu pellach**

Os byddwn yn dymuno defnyddio eich gwybodaeth bersonol i ddiben newydd nas cwmpasir gan yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, byddwn yn anfon hysbysiad newydd atoch yn egluro'r defnydd newydd hwn cyn i ni ddechrau ar y gwaith prosesu, ac yn nodi'r dibenion perthnasol a'r amodau prosesu. Byddwn yn gofyn ymlaen llaw am eich cydsyniad i wneud y gwaith prosesu newydd lle bynnag a phryd bynnag y bydd ei angen.

## **Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn**

Bydd y Gymdeithas yn adolygu'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn o dro i dro er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gywir.

## **Cysylltu â'r Gymdeithas**

I gael gwybod rhagor am y wybodaeth bersonol y mae'r Gymdeithas yn ei dal andanoch, ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan gyfraith diogelu gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â'r Gymdeithas trwy e-bost [swyddfa@cyfieithwyr.cymru](mailto:swyddfa@cyfieithwyr.cymru), neu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Intec, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG.